

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 10ed o Orffennaf 2007.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr T Les Jones (Cadair) – Nantlle; Richard Evans, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Harry W Owen, Dafydd G Owen – Talysarn; Elwyn Jones Griffith, Megan Thomas, Anne V Jones, Iwan Ll Williams, Dyfed Edwards (Cyng Sir) – Penygroes; Jaqueline A Roberts – Nebo; OP Huws, Dilwyn Lloyd – Cynghorwyr Sir.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- *24 Maes Dulyn, Penygroes – codi un ty dau lawr.
- *1 Pant y Celyn, Llanllyfni – estyniad a dormeri. .
- *Tir ger ac yn Llwyn Isaf, Clynnogfawr – cloddio mwynau i ddarparu cyfleuster tirlenwi gwastraff ty, darparu ffordd fynedfa newydd, system traenio, ardal pentyrru stoc a gwaith adfer.
- *Iard scaffolding RTS, Stad Ddiwydiannol Penygroes – rhannu iard ddiwydiannol bresennol i ffurfio 3 iard – un ohonynt yn cynnwys adeilad presennol i'w rannu yn 4 uned.
- *19 Mor Awel, Penygroes – estyniad deulawr.

Cafwyd ymatebion ga yr Awdurdodau perthnasol ar geisiadau cynllunio eraill sef:

***CANIATAU** – Adeiladu gorsaf heddlu newydd ar safle hen Glwb Social Nantlle Vale, Penygroes; Estyniad i greu man ysmegu Tafarn y Fic, Penygroes; Newid defnydd swyddfa i lolfa, estyniad a garej yn 5 Heol y Dwr, Penygroes; Estyniad cefn deulawr i 73 Ffordd Hyfrydle, Talysarn; Creu ffenestr dormar gyda balconi yn Yr Hen Felin Wlan, Ffordd Clynnog, Penygroes; Codi un ty dau lawr yn 24 Maes Dulyn, Penygroes; Codi un ty fforddiadwy ar lain o dir cyfagos Glan Llyfnwy, Nantlle.

Adroddiadau Pentrefi:

Penygroes: Difrodwyd to lloches bws Penygroes, a bu'n rhaid i'r Cyngor Cymuned archebu llechi newydd er mwyn ei drwsio. Mae pryder gan y Cyngor nad yw'r lloches bws yn cael ei defnyddio yn bwrpasol, a bod plant a phobl ifanc yn dueddol o sefyllian yno, ysgrifennu graffiti ar y lloches ac yn malu a chreu niwsans.

Llanllyfni Mae'r Maen capio ar y 'pilar' cerrig ger troed y bont dros Lon Coed Cae Du/Afon Crychddwr wedi symud ac yn beryglus. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

*Camfa at yr Afon Llyfni ger Dolgau yn pydru'n sydyn ac yn siglo. Eto byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Nantlle: Pryder am gerbydau yn gor yrru drwy'r pentref – stribedi mesur cyflymder wedi eu gosod ar draws y lon.

Mae llawer iawn o drafferthion wedi bod yn ddiweddar yn y pentrefi. Difrodwyd lloches bws y Cyngor ym Mhenygroes, cafwyd graffiti ar y Co-op ac i fyny'r lon, ffenestri nifer o wahanol adeiladau wedi eu malu. Roedd y Cyngor yn bryderus iawn am y sefyllfa hon, a gofynwyd i'r Clerc wahodd Hywel Williams AS i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned, ac hefyd y Plismon Cymunedol i drafod.

Roedd y Cyngor wedi paratoi holiadur ar gyfer disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle, yn gofyn am eu barn ar gael lle aml-bwrpas i Benygroes. Roedd y Cyngor Cymuned yn falch iawn o derbyn nifer helaeth o'r holiaduron yn ol wedi eu cwblhau gan y disgyblion. Diolch yn fawr iawn i bawb.